# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Plas Gwyn**

**Llanychan**
**Rhuthun**
**LL15 1TY**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/02/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The*

*Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Nyrsio Plas Gwyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Amrit Pelladoah |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw] 20 Hydref 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn i olrhain y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth a'r Maes i'w Wella.  Mae'r cartref bellach yn cydymffurfio a gwnaed gwelliannau o ran cynlluniau personol, diogelu, goruchwylio'r gwasanaeth, yr amgylchedd, a'r broses rhoi meddyginiaeth.

Gwelsom fod y staff bellach yn cofnodi gwybodaeth yn gyson yng nghynlluniau personol y bobl a'u bod yn defnyddio'r system cofnodion electronig yn effeithiol. Mae rhai agweddau ar y gofal yn cael eu cofnodi ar bapur o hyd, gan gynnwys y Cofnod Rhoi Meddyginiaeth, pwysau, siartiau rowndiau. Gwelsom fod hyn yn gyson. Dywed y staff gofal eu bod yn teimlo'n hyderus a'u bod yn cael eu cefnogi wrth gadw cofnodion.

Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw wedi cael hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb ar ddiogelu. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi derbyn atgyfeiriadau diogelu priodol gan y staff gofal a'r nyrsys ers yr arolygiad diwethaf. Dywedodd y staff gofal a'r nyrsys y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn gwybod beth i'w wneud pe byddent yn dechrau pryderu am rywun. Mae pob aelod o'r staff yn glir o ran pa gamau i'w cymryd yn absenoldeb y rheolwr.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r staff gofal yn dal i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac maent yn parhau i gael sesiynau goruchwylio rheolaidd. Mae'r rheolwr yn parhau i gael ei gefnogi gan yr unigolyn cyfrifol; mae eu cyfarfodydd bellach yn cael eu dyddio a'u dogfennu.

Mae sawl maes o'r amgylchedd wedi gwella'n sylweddol, a gwelsom dystiolaeth fod gwaith monitro parhaus yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r amgylchedd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r staff gofal yn rhoi rheolaeth i'r bobl dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gall y bobl ddewis sut, pryd a gyda phwy yr hoffent dreulio eu hamser. Wrth arsylwi ar y staff gofal yn cefnogi'r bobl, gwelsom gydberthnasau da rhyngddynt. Mae'r bobl yn teimlo'n gyfforddus â'r staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r cynlluniau personol yn glir ac yn gyson ac yn adlewyrchu anghenion gofal yr unigolion. Mae'r rheolwyr yn parhau i fod yn gefnogol, ac mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gofal wedi gwella.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl. Er enghraifft, yn ystod prydau bwyd, ac wrth gynllunio eu diwrnod. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi drwy gydol ein hymweliad. Mae'r staff gofal yn garedig ac yn annog y bobl. Maent wedi cael hyfforddiant ychwanegol ar ddefnyddio'r system cofnodion electronig, ac felly mae'r broses o gofnodi gwybodaeth am y gofal yn amserol ac yn gyson. Caiff apwyntiadau iechyd eu trefnu yn y gwasanaeth ac oddi yno. Mae'r rheolwyr yn annog gweithwyr proffesiynol, teulu a ffrindiau i ymweld ac i gymryd rhan yn y broses o gynllunio'r gofal lle bo modd.

Mae mesurau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys asesiadau risg priodol a chyfredol ar gyfer yr unigolion, lle y bo'n briodol. Mae pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf, a hynny wyneb yn wyneb. Mae'r rheolwyr yn sicrhau bod ceisiadau Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn cael eu gwneud mewn modd priodol ac amserol. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ychwanegol yn unol â datblygiadau i bolisi'r gwasanaeth ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelu pan na fydd y rheolwr yn bresennol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda, yn garedig ac yn eu hannog. Mae'r cynlluniau personol yn seiliedig ar anghenion unigol y bobl. Gwelsom fod asesiadau risg priodol ar waith sydd wedi'u teilwra i anghenion a risgiau'r unigolyn. Gwelsom fod ffeiliau gofal yn cael eu cofnodi'n electronig a bod fersiynau papur ar gael er mwyn gallu cael gafael arnynt yn hawdd. Caiff cofnodion eu diwygio'n briodol pan gaiff anghenion gofal eu hadolygu neu eu newid. Mae'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu â theuluoedd a ffrindiau yn parhau i fod yn effeithiol. Mae'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol wedi gwella.

Caiff y bobl eu cefnogi i ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Dywed gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fod y cartref yn cyfathrebu â nhw yn rheolaidd ac yn effeithiol am anghenion gofal y bobl. Mae'r staff gofal a'r rheolwyr yn cymryd camau effeithiol er mwyn rhoi gwybod i'r Awdurdod Iechyd neu'r Awdurdod Lleol (ALl) am bryderon neu ddigwyddiadau. Dywedodd un gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym, *"Care plans were very specific and easy to follow with any information required being easily obtained."*

Mae dulliau ar waith i leihau risgiau ac i ddiogelu’r bobl. Mae'r polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu diweddaru a gall y staff gofal gael gafael arnynt yn hawdd. Mae hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb wedi cael ei roi i bob aelod o'r staff. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus wrth roi gwybod am unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau diogelu. Mae'r cofnodion yn dangos bod atgyfeiriadau amserol a phriodol wedi cael eu gwneud at yr Awdurdod Iechyd, yr ALl ac AGC ers yr arolygiad diwethaf.

Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Mae cofnodion hyfforddiant a ffeiliau'r staff gofal yn dangos bod y staff gofal sy'n rhoi meddyginiaeth wedi cael hyfforddiant; dywedodd yr aelodau hynny o staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus yn gwneud hynny. Mae cofnodion yn dangos bod y gweithdrefnau ar gyfer meddyginiaethau yn cael eu monitro'n fewnol. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer meddyginiaethau wedi cael eu diweddaru ac mae'r staff gofal perthnasol wedi eu llofnodi i ddangos eu bod wedi'u darllen. Mae'r cofnodion hefyd yn dangos bod cydweithiwr allanol wedi archwilio'r broses meddyginiaethau. Dangosodd y rheolwr y gwelliannau a wnaed ers yr arolygiad diwethaf ac mewn ymateb i awgrymiadau gan yr archwilydd allanol i hi. Mae tymheredd priodol wedi'i osod ar gyfer yr ystafell feddyginiaeth, ac ar gyfer yr oergell. Gwelsom fod y tymereddau hyn yn cael eu gwirio ddwywaith y dydd. Gwelsom fod y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr wedi cymryd camau i wneud gwelliannau sylweddol i'r amgylchedd. Gwelsom fod y fynedfa i'r gwasanaeth yn ddiogel, a nifer o welliannau i'r ystafell fwyta, yr ystafelloedd eistedd, y coridorau cymunedol a'r ystafelloedd gwely. Cafodd eitemau diangen eu symud ac mae'r ardaloedd a oedd yn peri risg i'r bobl wedi cael eu gwella. Mae'r dodrefn yn ddiogel, mae'r lloriau wedi cael eu gwella, gosodwyd ffenestri newydd, a chaiff y giatiau, y drysau a'r cypyrddau bellach eu cloi.

Cymerwyd camau i sicrhau diogelwch pellach. Mae'r gwasanaeth wedi cael archwiliad diogelwch tân. Mae'r estyniadau trydanol yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Mae'r allanfeydd tân yn glir. Caiff cymhorthion symudedd a theclynnau codi eu glanhau a'u monitro pan fo angen. Rhoddwyd sgôr Hylendid Bwyd o bedwar i'r gwasanaeth (pump yw'r sgôr uchaf). Mae'r cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng yn glir, yn hygyrch ac yn seiliedig ar anghenion unigol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr wedi gwella ei drefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl yn cael gofal o ansawdd da. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith gan y gwasanaeth, ac mae llawer ohonynt wedi cael eu diweddaru a'u gwella ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn hygyrch ac wedi'u gweld a'u llofnodi gan y staff gofal unigol i gadarnhau eu bod wedi'u gweld. Gwnaethom adolygu sampl o archwiliadau misol a gynhaliwyd gan y rheolwr gan gynnwys Ffeiliau Gofal, Rheoli Heintiau, Iechyd a Diogelwch, Rheiliau Gwely, Meddyginiaethau a Hylendid Dwylo. Roedd y samplau a welsom yn dangos bod meysydd i'w gwella wedi'u nodi. Gwelsom hefyd dystiolaeth o drefniadau goruchwylio gwell gan y darparwr, yn yr ystyr ein bod wedi gweld tystiolaeth o ddyddiadau goruchwylio a chrynodeb o gofnodion rhwng y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol.

Mae'r bobl yn cael gofal gan wasanaeth sy'n sicrhau lefelau staffio digonol. Roedd y rota staff yn cadarnhau hyn. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn teimlo bod digon o staff ar gael iddynt ddarparu gofal o ansawdd da. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a pharchus rhwng y staff gofal a'r bobl drwy gydol y dydd. Dywedodd gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym:
"*the staff are very professional and very polite and helpful.*" Mae hyfforddiant parhaus wedi'i gynllunio ar gyfer y staff gofal, gan gynnwys Hyfywedd Meinwe a Diogelu. Mae ffeiliau'r staff gofal yn dangos yr hyfforddiant a gwblhawyd, sy'n gyson â'r dyddiadau ar y matrics hyfforddiant.

roddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| **Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio** | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |

| | |
|---|---|
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| **Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Mae'r cynlluniau personol yn aneglur gan eu bod yn cael eu cofnodi ar ffurf electronig ac ar bapur. Mae'r wybodaeth yn anghyson ac mae rhannau ohoni yn gwrthddweud ei gilydd, sy'n peri risg na fydd y bobl yn cael y gofal cywir. | Cyflawnwyd |
| 26 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn darparu'r gwasanaeth mewn ffordd sy'n sicrhau bod yr unigolion yn ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. | Cyflawnwyd |
| 44 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod nac wedi sicrhau nad yw'n cynnwys unrhyw risgiau a pheryglon cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. | Cyflawnwyd |
| 66 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau cadarn ar waith i oruchwylio ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 58 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i storio a rhoi meddyginiaethau yn ddiogel. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/04/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi